**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

seneddLJC@senedd.wales

23 Ionawr 2024

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyrau dyddiedig 10 Hydref 2023 a 17 Ionawr 2024 yn gofyn am fanylion ein gwariant arfaethedig a nodir yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 ar weithgareddau cyfiawnder a hygyrchedd cyfraith Cymru. Yr wyf yn ddiolchgar am eich dealltwriaeth o ran amseriad yr ymateb hwn.

**Dadansoddiad o'r gwariant a gynlluniwyd ar draws camau gweithredu sy'n ymwneud â chyfiawnder**

Mae dadansoddiad o wariant wedi'i gynllunio ar draws camau gweithredu sy'n ymwneud â chyfiawnder yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 ar gael yn y tabl sydd wedi'i atodi, ochr yn ochr â disgrifiad naratif o unrhyw newidiadau a nodwyd o un flwyddyn i'r llall. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch allweddol yn rhaglen waith a rhaglenni Sicrhau Cyfiawnder i Gymru a gyflwynir mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, fel Glasbrintiau Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid.

*Gwella lefel yr wybodaeth a ddarperir*

Wrth ateb y cwestiwn hwn a nifer o gwestiynau dilynol y Pwyllgor, mae'n bwysig myfyrio ar y materion systemig y mae'n eu codi. Mae'r cwestiynau a godir gan y Pwyllgor yn rhai teg ac rydym yn cydnabod budd y cyhoedd o gael atebion iddynt. Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei ymdrechion, er gwaethaf ei lwyth gwaith sylweddol arall, i graffu'n drawsbynciol ar faterion cyfiawnder, ac fel y gŵyr y Pwyllgor, rydym wedi gwneud gwaith sylweddol o fewn Llywodraeth Cymru i roi mwy o bwys ac amlygrwydd i ystyriaethau cyfiawnder, er enghraifft drwy Is-bwyllgor Cyfiawnder y Cabinet.

Rydym yn cydnabod pwynt y Pwyllgor ei bod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru allu deall gwariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder. Rydym yn parhau i ystyried a oes ffyrdd y gallwn wella lefel yr wybodaeth y gallwn ei darparu am wariant cyfiawnder ar draws llywodraeth. Wrth gwrs, byddwn yn cyhoeddi diweddariad ar raglen waith Sicrhau Cyfiawnder i Gymru a

fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch a chanlyniadau o ganlyniad i fuddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn meysydd sy'n effeithio ar y system gyfiawnder.

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau strwythurol sylweddol o hyd ar y graddau y gall Llywodraeth Cymru ystyried pob mater drwy "brism cyfiawnder", yn absenoldeb Gweinidog dros Gyfiawnder a Phrif Grŵp Gwariant (MEG) penodol ar gyfiawnder. Mae hyn yn ei dro wedi cael ei ystyried yn anodd ei gyfiawnhau yn absenoldeb cynnydd yn nifer y gweinidogion, a chyda graddfa bresennol y "swyddogaethau cyfiawnder" uniongyrchol a ddelir gan Lywodraeth Cymru, er, wrth gwrs, y gobaith yw y bydd y ddau beth hyn yn newid yn y dyfodol cymharol agos. Byddai angen mwy o gapasiti o ran y gwasanaeth sifil ar gyfiawnder hefyd i gefnogi'r newidiadau hynny, sydd wrth gwrs yn rhan o pam y mae'n rhaid ariannu unrhyw swyddogaethau datganoli cyfiawnder yn briodol.

Fodd bynnag, fel y mae pethau ar hyn o bryd (ac fel yr wyf wedi nodi yn fy ymddangosiadau blaenorol gerbron y Pwyllgor) nid yw'n bosibl darparu gwybodaeth gynhwysfawr ar lefel fanwl am wariant cyfiawnder gan ei bod yn dal yn wir bod gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn torri ar draws portffolios ac yn cael ei ddyrannu o fewn nifer o Linellau Gwariant y Gyllideb (BEL). Mewn rhai meysydd, lle mae BEL yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau gwahanol, ni fydd dyrannu setliad drafft yn golygu bod penderfyniadau terfynol wedi cael eu gwneud ynghylch sut byddai'r arian o fewn y BEL honno wedyn yn cael ei flaenoriaethu, a bydd angen gwneud rhagor o waith i asesu i ba raddau y byddant yn cael eu dyrannu i wariant sy'n ymwneud â chyfiawnder.

**Pa effaith y mae cynnydd mewn prisiau wedi'i chael ar gynigion ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder ar gyfer cyllideb 2024-25 a sut y bydd y rhain yn cael eu rheoli**

Mae'r cwestiwn penodol am gynnydd mewn prisiau yn dangos y pwynt a wnaed yn yr adran uchod. Bydd effaith codiadau mewn prisiau wedi cael ei hystyried i'r graddau sy'n berthnasol yng nghyd-destun pob Prif Grŵp Gwariant (MEG) unigol ac yn wir o fewn Llinellau Gwariant Cyllidebau unigol (BEL). Fodd bynnag, nid yw wedi cael ei hystyried yn gronnus mewn perthynas benodol â gwariant ar weithgareddau sy'n ymwneud â chyfiawnder, ac yn ein barn ni, byddai ceisio gwneud hynny'n anghymesur o drwm ar adnoddau wrth ei osod yn erbyn y gwerth y byddai'n ei gynnig.

Wrth ddod i'r farn honno, rydym yn sylwi bod y mater wedi ei godi yn ystod craffu ariannol mewn blynyddoedd blaenorol, sef mewn rhai meysydd, lle mae BEL yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau gwahanol, na fydd dyrannu setliad drafft yn golygu bod penderfyniadau terfynol wedi cael eu gwneud ynghylch sut byddai'r arian o fewn y BEL honno wedyn yn cael ei flaenoriaethu, a bydd angen gwneud rhagor o waith i asesu i ba raddau y byddant yn cael eu dyrannu i wariant sy'n ymwneud â chyfiawnder. Mae hyn yn cymhlethu ymhellach unrhyw asesiad y gellid ei wneud o effaith codiadau mewn prisiau.

Wedi dweud hynny, nid oes gennym unrhyw reswm i gredu y bydd effaith codiadau mewn prisiau ar wariant cyfiawnder yn wahanol iawn i effaith codiadau mewn prisiau ar feysydd eraill o wariant Llywodraeth Cymru. Mae ein setliad ar gyfer 2024-25 yn werth hyd at £1.3bn yn llai mewn termau real na'r disgwyl ar adeg Adolygiad Gwariant 2021. Mae hynny'n anhygoel o anodd. Yn benodol, mae cyfran fawr o'r gwariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn ymwneud â chostau staff, gan gynnwys nid yn unig gweision sifil ond y farnwriaeth

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddatganoledig, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac eraill. Wrth gwrs, mae costau staff wedi cynyddu mewn termau ariannol yn fwy na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, ac mae hyn ynddo'i hun yn ymateb i brisiau uwch a'r effaith ar gostau byw.

Wrth weithio i liniaru'r pwysau hyn, rydym wedi cael ein harwain gan yr angen i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen cyn belled ag y bo modd, ac i dargedu cymorth tuag at y rheini sydd â'r angen mwyaf. Yr ydym wedi gwneud dewisiadau anodd ynghylch ble i flaenoriaethu a ble i ddadflaenoriaethu cyllid.

Un o'r ffactorau rydym wedi'u hystyried yw'r graddau yr oedd cyllid arfaethedig i fod i gynorthwyo meysydd a gedwir yn ôl yn hytrach na chanolbwyntio ar gyfrifoldebau cyfansoddiadol neu statudol Llywodraeth Cymru – a fydd, wrth gwrs, wedi effeithio ar rai meysydd gwariant sy'n ymwneud â chyfiawnder, fel y trafodir isod.

**Beth yw goblygiadau ymarferol pwysau cyllidebol ar y rhaglen Sicrhau Cyfiawnder i Gymru; a yw'r gwaith o gyflawni'r rhaglen yn cael ei gwtogi ac a yw canlyniadau ac amcanion yn cael eu hailasesu yn y cyd-destun ariannol sydd ohoni?**

Fel y nodwyd uchod, un o'r ffactorau rydym wedi'u hystyried yw i ba raddau yr oedd cyllid wedi'i gynllunio i fod yn gymhorthdal i feysydd a gedwir yn ôl. Er enghraifft, rydym wedi lleihau cyllid Llywodraeth Cymru i'r pedwar heddlu yng Nghymru a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO), o £21.459 miliwn yn 2023-24 i £15.488 miliwn yn 2024-25.

Rydym yn dal i ddarparu dros £15m o gyllid i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu er bod y maes hwn wedi'i neilltuo i Lywodraeth y DU. Darperir yr arian hwn yn ychwanegol at y cyllid i heddluoedd gan Lywodraeth y DU, gan ddarparu buddsoddiad ychwanegol mewn cymunedau yng Nghymru nad yw ar gael i heddluoedd yn Lloegr.

Rydym wedi ymgysylltu â chydweithwyr plismona ar draws proses y gyllideb, fel rhan o'n dull hirsefydlog o weithio mewn partneriaeth yng Nghymru. Mae cydweithwyr ym maes plismona nawr yn ystyried effaith y gyllideb a bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cwrdd â nhw i drafod a chytuno ar ddull gweithredu ar y cyd ar gyfer y camau nesaf ar ôl i'w hasesiad cychwynnol gael ei gwblhau.

Rydym hefyd wedi tynnu ein cyllid yn ôl ar gyfer Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru. Mae'r Rhaglen yn dod o fewn cyfrifoldeb portffolio'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ac fe'i hariannwyd o'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y gyllideb camddefnyddio sylweddau) sydd o dan bwysau arbennig. Deallaf y bydd y Dirprwy Weinidog yn ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda manylion pellach am y dewisiadau a wneir o fewn y gyllideb camddefnyddio sylweddau a gofynnaf a ellir rhannu'r llythyr hwnnw â'r Pwyllgor.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, rydym yn credu ein bod wedi cyflawni cydbwysedd cymesur rhwng y gofyniad i ymateb i amgylchiadau ariannol sy'n newid a'r uchelgeisiau pwysig wrth Sicrhau Cyfiawnder i Gymru. Cyn bo hir, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad cynnydd Sicrhau Cyfiawnder i Gymru a fydd yn rhoi manylion y cynnydd gyda'r rhaglen waith Sicrhau Cyfiawnder.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Pa ymgysylltiad a gafwyd â sefydliadau gwirfoddol a rhanddeiliaid sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol i lywio cynigion gwariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder ar gyfer 2024-25.**

**Gwybodaeth am sut y bydd dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfiawnder yn cyfrannu at leihau anghydraddoldeb**

**Gwybodaeth am sut y bydd gwariant arfaethedig 2024-25 ar gyfiawnder yn bodloni gofynion dyletswydd economaidd-gymdeithasol Llywodraeth Cymru.**

Mae'r holl gwestiynau hyn yn codi'r un heriau strwythurol wrth ateb y cwestiwn am gynnydd mewn prisiau uchod, ynghylch i ba raddau y gall Llywodraeth Cymru ystyried pob mater drwy "brism cyfiawnder", yn absenoldeb Gweinidog dros Gyfiawnder a Phrif Grŵp Gwariant (MEG) penodol i gyfiawnder.

Bydd yr effaith ar anghydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a'r angen am ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi cael eu hystyried i'r graddau sy'n berthnasol yng nghyd-destun pob Prif Grŵp Gwariant (MEG) unigol ac yn wir o fewn Llinellau Gwariant Cyllidebau unigol (BEL). Mae gan rai rhanddeiliaid feysydd diddordeb arbennig o eang, ac felly, er enghraifft, rydym wedi ymgysylltu â chydweithwyr plismona ar draws proses y gyllideb, fel rhan o'n dull hirsefydlog o weithio mewn partneriaeth yng Nghymru. Mae cydweithwyr ym maes plismona nawr yn ystyried effaith y gyllideb a bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cwrdd â nhw i drafod a chytuno ar ddull gweithredu ar y cyd ar gyfer y camau nesaf ar ôl i'w hasesiad cychwynnol gael ei gwblhau.

Fodd bynnag, nid yw'r cwestiynau a godwyd wedi cael eu hystyried yn gronnus mewn perthynas benodol â gwariant ar weithgareddau sy'n ymwneud â chyfiawnder, ac yn ein barn ni, byddai ceisio gwneud hynny'n anghymesur o drwm ar adnoddau wrth ei osod yn erbyn y gwerth y byddai'n ei gynnig.

**A oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i wariant arfaethedig ar gyfer 2024-25 mewn ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â chapasiti carchardai**

Nid oes unrhyw newidiadau penodol wedi cael eu gwneud i gynlluniau gwario, ond mae risgiau clir yn deillio o'r heriau hyn. Er enghraifft, mae cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg carcharorion yng Nghymru yn cael ei phennu drwy gyllid canlyniadol, ac mae Llywodraeth y DU yn dal i fod yn gyfrifol am y gyllideb ar gyfer addysg mewn carchardai. Deellir nad oes unrhyw gynlluniau i gynyddu'r gyllideb yng ngoleuni niferoedd cynyddol o garcharorion, sy'n cynrychioli pwysau ar gyllid addysg carchardai yn y blynyddoedd i ddod.

Mae capasiti carchardai yn effeithio ar wasanaethau digartrefedd ledled Cymru mewn dwy ffordd; mae'r niferoedd uchel o garcharorion yn y system garchardai yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau digartrefedd ledled Cymru. Yn ogystal â hyn, mae prinder staff yn y system garchardai a'r sefydliadau sydd wedi'u contractio i ddarparu cymorth a chyngor i bobl sy'n mynd i'r carchar ac yn cael eu rhyddhau o'r carchar yn gwaethygu'r broblem ymhellach.

Ar adegau, mae carcharorion yn cael eu rhyddhau cyn eu hamser, gan wneud cynllunio cymorth a llety yn anoddach o lawer i awdurdodau lleol sy'n cael eu herio ar adegau o

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gwblhau asesiadau i ddiwallu anghenion pobl ag anghenion cymhleth ac sy'n peri risg iddyn nhw eu hunain a'r cymunedau lle maen nhw'n cael eu hailsefydlu.

Mae hyn yn gwneud sefyllfa sydd eisoes yn heriol yn anoddach i awdurdodau lleol sydd eisoes yn wynebu prinder tai a phecynnau cymorth i bobl ag anghenion cymorth uchel. Oherwydd nifer isel o staff mewn carchardai yn ogystal â heriau recriwtio, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod bod asesiadau tai yn aml yn cael eu gohirio pan gaiff unigolion eu derbyn i'r carchar, gyda'r canlyniad bod rhai carcharorion ar ddedfrydau byr mewn perygl o golli eu llety oherwydd diffyg cyfathrebu â'u landlord nad yw'n gwybod eu bod yn y ddalfa. Nid oes gennym ddata i fesur yr wybodaeth hon.

Mae gan y ffactorau y cyfeirir atynt uchod oblygiadau ariannol i awdurdodau lleol yn ogystal â risg uwch i gyn garcharorion.

**Gwybodaeth am sut y bydd dyraniadau'r gyllideb ddrafft sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn cefnogi camau i leihau cyfraddau carcharu yng Nghymru, yn enwedig ymhlith pobl â nodweddion gwarchodedig.**

**Gwybodaeth am gamau ataliol a fydd yn cael eu hariannu gan ddyraniadau arfaethedig ar wariant sy'n gysylltiedig â chyfiawnder yn 2024-25**

Mae rhaglen waith Sicrhau Cyfiawnder i Gymru yn cynnwys llawer o ymrwymiadau sydd â'r nod o atal a lleihau cyfraddau carcharu yng Nghymru.

*Glasbrintiau*

Mae'r Glasbrintiau ar gyfer Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid yn cefnogi ac yn dargyfeirio pobl agored i niwed i ffwrdd oddi wrth droseddu a thuag at ddyfodol gwell iddyn nhw eu hunain, eu teuluoedd a'u cymunedau. Er gwaethaf cyllidebau heriol, rydym wedi cynnal cyllid ar gyfer darparu Glasbrintiau Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid wrth i ni gydnabod y rhan bwysig maen nhw'n ei chwarae o ran cefnogi pobl agored i niwed. Ar gyfer cyllideb 2024-25, cyfanswm y gyllideb sydd ar gael ar gyfer darparu'r Glasbrintiau yw £1.072m, yr un fath yn ei hanfod ag ar gyfer 2023-24.

Bydd BEL Glasbrintiau Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid yn cael ei defnyddio yn 2024-25 i gefnogi nifer o raglenni ymarferol sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i bobl yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod, y rhaglen Ymweld â Mam a chymorth VAWDASV ar gyfer menywod Cymru sydd yn y ddalfa.

Mae'r Glasbrint Cyfiawnder Menywod wedi cyflawni amrywiaeth o ganlyniadau cadarnhaol ers iddo gael ei sefydlu yn 2019, o fentrau fel Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod ac Ymweld â Mam, i waith ymgysylltu â dedfrydwyr a sefydlu cynlluniau atal ledled Cymru gyfan.

Mae Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod yn un o gonglfeini'r Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod ac mae'n helpu menywod i fynd i'r afael â materion fel iechyd meddwl ar bob cam o'r system gyfiawnder, gan sicrhau ein bod yn dargyfeirio menywod i ffwrdd o ddedfrydau carchar diangen ac aflonyddgar. Roedd gwerthusiad annibynnol o

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ddull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod a'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar 18-25 a gynhaliwyd gan Cordis Bright (2022) yn tynnu sylw at nifer o ganfyddiadau cadarnhaol o ran sut mae'r gwasanaeth wedi cefnogi menywod i fynd i'r afael ag anghenion a gwendidau sy'n gysylltiedig â throseddu. Roedd y gwerthusiad hefyd wedi nodi gwelliannau mewn canlyniadau personol i'r rhai a gafodd eu hatgyfeirio, gan gynnwys gwelliannau mewn iechyd meddwl a llesiant, iechyd corfforol a pherthnasoedd teuluol. Bydd rhan o gyllideb y Glasbrint yn cael ei defnyddio i gefnogi parhad gwasanaeth Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod yn Ne Cymru a Gwent, a'i ymestyn ar draws Gogledd Cymru a Gwent.

*Digartrefedd*

Yn y Gyllideb Ddrafft, rydym wedi diogelu cyllid ar gyfer atal digartrefedd, gan ddarparu cyllid refeniw ychwanegol o £2m yn y gyllideb Cymorth ac Atal Digartrefedd, sydd bellach dros £214m. Mae ein buddsoddiad sylweddol parhaus mewn atal digartrefedd yn cyflawni amcanion polisi allweddol, yn enwedig mynd i'r afael â thlodi ac anfantais, yn gwella canlyniadau i unigolion a theuluoedd, ac yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill.

Rydym hefyd yn darparu cyllid dangosol ar gyfer prosiectau'r trydydd sector yn 2024-25. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer Tai yn Gyntaf, Arloesi Ieuenctid, Shelter Cymru ac, wrth gwrs, Cymorth Cymru.

Yn y Gyllideb Cymorth ac Atal Digartrefedd, rydym wedi diogelu cyllid i'r Grant Cymorth Tai, gan ei gynnal ar y lefel bresennol o £166.8m er gwaethaf y sefyllfa gyllidebol eithriadol o anodd.

Y Grant Cymorth Tai yw'r prif grant atal digartrefedd ac mae'n helpu pobl sydd ag amrywiaeth o anghenion cymorth i fyw'n annibynnol a chynnal tenantiaethau, gan leihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill (yn enwedig iechyd a gofal cymdeithasol).

*VAWDASV*

Yn amodol ar setliad y gyllideb derfynol, mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer VAWDASV yn parhau ar y lefel bresennol o £8.005 miliwn yn 2024-25. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i amddiffyn menywod a merched ledled Cymru. Er bod hyn yn ganlyniad cadarnhaol o ystyried sefyllfa gyffredinol y gyllideb, mae chwyddiant ynghyd â'r galw cynyddol am wasanaethau yn golygu y bydd llawer o wasanaethau VAWDASV rheng flaen yn dal dan bwysau mawr yn y flwyddyn i ddod. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid dros y misoedd nesaf i adolygu ein trefniadau cyllido VAWDASV i sicrhau eu bod mor deg ac effeithiol â phosibl.

**Gwybodaeth am y graddau y bydd gwaith paratoi ar gyfer datganoli cyfiawnder yn parhau yng ngoleuni pwysau cyllidebol.**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gwaith i baratoi ar gyfer datganoli cyfiawnder yn cael ei gwmpasu'n bennaf drwy'r BEL Trawsnewid Cyfiawnder a fydd yn parhau i dderbyn £480,000 yn ystod y flwyddyn ariannol. Costau staffio yn bennaf yw'r costau i'w talu o'r BEL Trawsnewid Cyfiawnder. Fodd bynnag, disgwylir i'r BEL hwn gael ei ddefnyddio hefyd ar gyfer comisiynu gwasanaethau allanol fel ymchwil a dadansoddi er mwyn gwella ein dealltwriaeth o ddatganoli cyfiawnder. Rydym yn disgwyl i'r gwaith paratoi barhau dros y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd yr adroddiad cynnydd Sicrhau Cyfiawnder i Gymru sydd ar y gweill yn nodi'r uchelgeisiau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Diwygio tribiwnlysoedd**

Mae'r gwaith sydd ar y gweill ar y prosiect diwygio tribiwnlysoedd i fwrw ymlaen â chynigion ar gyfer system tribiwnlysoedd newydd i Gymru yn cael ei ariannu o'r BEL Trawsnewid Cyfiawnder, fel y nodir yn yr atodiad.

Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, fe wnaethom gyhoeddi Papur Gwyn "System Tribiwnlysoedd Newydd i Gymru" i ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer diwygio. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 2 Hydref. Cawsom 54 o ymatebion gan ymatebwyr o amrywiaeth o gefndiroedd a oedd yn cwmpasu rhychwant y diwygiadau arfaethedig. Ein nod yw cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ddiwedd mis Ionawr.

Dim ond gyda deddfwriaeth sylfaenol y gellir sefydlu system unedig newydd o dribiwnlysoedd. Mae amserlennu'r ddeddfwriaeth honno'n amodol ar ei phrosesau ar wahân ei hun, ac yr ydym yn bwrw ymlaen â gwaith paratoi cyn i'r ddeddfwriaeth honno gael ei hamserlennu'n ffurfiol.

**Gwybodaeth am wariant arfaethedig yn 2024-25 ar gyflawni rhaglen Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, gan gynnwys y newidiadau arfaethedig i'r rhaglen a gyhoeddwyd yn yr adroddiad blynyddol ar y rhaglen ar gyfer 2022-23.**

Pan wnes i ddarparu tystiolaeth i gefnogi ystyriaeth y Pwyllgor o gyllideb ddrafft y Llywodraeth ar gyfer 2023-24, esboniais fod costau ein gwaith i gyflawni *Dyfodol Cyfraith Cymru* yn cael eu talu ar draws nifer o bortffolios fel rhan o weithgarwch deddfwriaethol ehangach y sefydliad. Dyna'r sefyllfa o hyd ar gyfer 2024-25 ac yn wir bydd felly yn y dyfodol; rwy'n cadarnhau bod y sefyllfa hon yn berthnasol i'r rhaglen ddiwygiedig a gyflwynais gerbron y Senedd ar 19 Ionawr.

Yn fy adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn y rhaglen wreiddiol (Tachwedd 2023), fe wneuthum gynnwys adolygiad o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 a oedd, ymysg materion eraill, yn delio â goblygiadau o ran adnoddau. Roedd hwn yn nodi (fel y bu i mi gadarnhau yn fy llythyr atoch ar 2 Mawrth 2023) manylion y staff ychwanegol sydd wedi cael eu rhoi ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen. Roedd hefyd yn egluro cyfyngiadau gallu mesur yr ystod lawn o gostau sy'n gysylltiedig ag ystod eang o adnoddau staff sy'n ymwneud (yn benodol) â pharatoi'r prosiectau deddfwriaethol, rhai sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth).

Fodd bynnag, yn 2024-25 gallaf gadarnhau bod costau Cwnsleriaid Deddfwriaethol a Chyfieithwyr Deddfwriaethol sy'n gweithio ar y Bil Deddfwriaeth a'r Bil Cynllunio a gwaith y

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Swyddfa Codau Deddfwriaethol i gefnogi’r rhaglen yn ei chyfanrwydd a chyflawni prosiectau penodol yn dod dan BEL 6720 – Costau Staff.

Mae costau TG bach iawn hefyd yn gysylltiedig â chefnogi a chynnal gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales, y disgwylir iddynt fod yn llai na £7,000 ar gyfer 2024-25, a fydd yn dod o dan BEL 6860 – costau TG.

**Gwybodaeth am wariant arfaethedig yn y maes hwn i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu’r ddarpariaeth o ddeddfwriaeth ddwyieithog hygyrch a ddarperir.**

Nid oes gwariant ychwanegol penodol wedi’i neilltuo’n benodol i gynyddu’r ddarpariaeth o ddeddfwriaeth ddwyieithog hygyrch yng nghyllideb ddrafft 2024-25. Yn hytrach, mae’n wir bod yr holl waith yn y rhaglen yn cyfrannu at yr uchelgais pwysig hwn ac yn ei gefnogi.

**Gwybodaeth am ba gamau a chanlyniadau y bydd y cyllid ar gyfer 2024-25 ar y Comisiwn Cyfansoddiadol yn cael ei ddefnyddio i’w cyflawni.**

Pennwyd y gyllideb ddrafft o reidrwydd cyn derbyn adroddiad y Comisiwn Cyfansoddiadol. Fodd bynnag, ystyriwyd ei bod yn ddoeth cadw darpariaeth gyllidebol i’w hystyried a bwrw ymlaen ag argymhellion y Comisiwn cyn gwybod beth allai’r argymhellion hynny fod. Rydym nawr yn ystyried adroddiad y Comisiwn, a byddwn yn nodi ein cynlluniau ar gyfer bwrw ymlaen ag ef maes o law.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy’n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 a dyrannu adnoddau i weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder**

| MEG[1] | SPA | BEL | Dyraniad £000s 23-24 | Dyraniad Dangosol 24-25 | Gweithgareddau yn ymwneud â chyfiawnder a ariennir gan BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | Cyrff a Gwasanaethau Allanol | Trawsnewid Cyfiawnder | 490 | 480 | Cydlynu'r rhaglen Trawsnewid Cyfiawnder ar draws y Llywodraeth a'r ymateb i argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, mynd ar drywydd a pharatoi ar gyfer datganoli cyfiawnder, cefnogi ymgysylltu ag argymhellion Comisiwn Cyfiawnder Llywodraeth y DU, datblygu'r sector cyfreithiol gan gynnwys ymgysylltu â Chyngor y Gyfraith yng Nghymru, bwrw ymlaen â gwaith sy'n ymwneud â Thribiwnlysoedd Cymru, gan gynnwys cynigion ar gyfer diwygio fel y nodir yn y Papur Gwyn "System Tribiwnlysoedd Newydd i Gymru". |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | Cyrff a Gwasanaethau Allanol | Tribiwnlysoedd | 4,193 | 4,110 | Gweinyddu a chefnogi Tribiwnlysoedd Cymru drwy Uned Tribiwnlysoedd Cymru. |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | Rhaglenni Canolog | Argyfyngau Sifil a Diogelwch Cenedlaethol | 350 | 350 | Mae'r Is-adran Diogelwch a Chydnerthedd Genedlaethol (NSRD) yn gyfrifol am wella gallu Llywodraeth Cymru i gynllunio, paratoi, ymateb ac adfer ar ôl heriau aflonyddgar yng Nghymru.<br><br>Bydd yr Is-adran yn parhau i arwain y gwaith o ddatblygu polisïau, ac ymateb gweithredol mewn perthynas ag argyfyngau sifil, ymateb i ddigwyddiadau, cynllunio ar gyfer argyfyngau, |

1 "MEG": Prif Grŵp Gwariant, "SPA": Maes Rhaglen Wariant, "BEL": Llinell Wariant yn y Gyllideb

| MEG[1] | SPA | BEL | Dyraniad £000s 23-24 | Dyraniad Dangosol 24-25 | Gweithgareddau yn ymwneud â chyfiawnder a ariennir gan BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | seibergadernid, diogelwch cenedlaethol a gwrthderfysgaeth.<br><br>Mae'r gyllideb gyffredinol yn caniatáu i'r Is-adran gyflawni yn erbyn cyfres o flaenoriaethau allweddol mewn perthynas â'r uchod a chefnogi'r agenda rheoli argyfwng sy'n dod i'r amlwg.<br><br>Mae NSRD wedi ymrwymo i weithio gyda Heddlu De Cymru (SWP) i ariannu Arbenigwr Pwnc ar Wrthderfysgaeth yn rhannol.<br><br>Er bod gweithgareddau NSRD yn cefnogi cynlluniau gwrthderfysgaeth a throseddau cyfundrefnol difrifol – nid oes cyllideb wedi'i neilltuo'n benodol i'r BEL, ac nid yw wedi'i chynnwys yn nhablau'r Gyllideb Ddrafft.<br><br>Mae unrhyw wariant mewn blynyddoedd blaenorol wedi cael ei reoli o fewn y Prif Grŵp Gwariant CSA. |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | 4,945 | 4,945 | Er bod gan Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMIP) ddyletswydd statudol i archwilio gofal iechyd a chamddefnyddio sylweddau mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr, mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng HMIP ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), lle gall AGIC fynd gyda HMIP ar arolygiadau rheolaidd o garchardai'r sector cyhoeddus. Mae AGIC yn canolbwyntio ar garchardai mewn perthynas â'r safonau ansawdd a diogelwch a'r |

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| MEG[1] | SPA | BEL | Dyraniad £000s 23-24 | Dyraniad Dangosol 24-25 | Gweithgareddau yn ymwneud â chyfiawnder a ariennir gan BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | trefniadau llywodraethu ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd mewn carchardai gan y byrddau iechyd yng Nghymru. |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol | Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol | 10,970 | 9,773 | <u>Hawliau Dynol</u><br><br>Bydd gwaith yn cael ei wneud mewn perthynas â'r meysydd gweithredu canlynol:<br>• gwaith paratoi deddfwriaethol;<br>• datblygu canllawiau Hawliau Dynol;<br>• ymgorffori Hawliau Dynol yn y prosesau Asesu Effaith Integredig; ac<br>• ehangu Ymwybyddiaeth o Hawliau Dynol.<br><br>Bydd gwaith ar y materion hyn yn cael ei wneud yn bennaf gan y Tîm Hawliau Dynol.<br><br><u>Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol</u><br>Mae ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sicrhau bod elfennau cyfiawnder Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn gadarn a rhoddir sylw i'r materion hyn gyda'r heddlu a'r llysoedd. Mae'r Cynllun yn cynnwys pennod benodol ar droseddu a chyfiawnder, a chyhoeddwyd Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder |

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| MEG[1] | SPA | BEL | Dyraniad £000s 23-24 | Dyraniad Dangosol 24-25 | Gweithgareddau yn ymwneud â chyfiawnder a ariennir gan BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Troseddol ar wahân ar gyfer Cymru ym mis Medi 2021.<br><br><u>Anabledd</u><br>Mae gweithgor Mynediad at Gyfiawnder o'r Tasglu Hawliau Anabledd wedi clywed cyflwyniadau ar droseddau casineb, plismona, ymosodiadau rhywiol, a thrais domestig a sut mae'r materion hyn yn effeithio ar bobl anabl yng Nghymru. |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol | Cymunedau Cydlynus | 4,571 | 4,710 | <u>Troseddau Casineb</u><br>Cyllido Canolfan Cymorth Casineb Cymru, sy'n cael ei rhedeg gan Gymorth i Ddioddefwyr, i ddarparu cefnogaeth ac eiriolaeth drwy'r system cyfiawnder troseddol i holl ddioddefwyr troseddau casineb yng Nghymru. Cyllido ymgyrch gyfathrebu yn erbyn troseddau casineb, Mae Casineb yn Brifo Cymru, i helpu i godi ymwybyddiaeth a chynyddu'r nifer sy'n rhoi gwybod am droseddau casineb. Archwilio gwaith atal gyda tramgwyddwyr. |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Cefnogi Cymunedau | Partneriaethau Cymdeithasol | 961 | 800 | Mae dyraniad y gyllideb yn cwmpasu ystod eang o waith o fewn y gyfarwyddiaeth Partneriaeth Gymdeithasol, Cyflogadwyedd a Gwaith Teg, gan gynnwys ymrwymiadau ehangach y Rhaglen Lywodraethu a'u costau staff rhaglenni cysylltiedig. |

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| MEG[1] | SPA | BEL | Dyraniad £000s 23-24 | Dyraniad Dangosol 24-25 | Gweithgareddau yn ymwneud â chyfiawnder a ariennir gan BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Mae'n darparu'r adnodd ar gyfer gweithgarwch yn ymwneud â chyfiawnder caethwasiaeth fodern.[2] |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Cefnogi Cymunedau | Incwm Sylfaenol | 12,200 | 10,700 | Mae proses ar waith ar gyfer sut mae pobl gymwys sy'n gadael gofal sy'n mynd i'r ddalfa ac yn gadael y ddalfa yn cael mynediad at y cynllun peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal yng Nghymru. Mae dyraniad y gyllideb yn cynnwys adnodd ar gyfer gwaith parhaus i adolygu'r broses yn barhaus ac unrhyw senarios unigryw sy'n codi drwy gydol y gwaith o gyflawni'r cynllun peilot. |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Gwasanaethau Eirioli | Gwasanaethau Cynghori | 12,811 | 11,675 | Mae'r Gronfa Gynghori Sengl yn sicrhau bod fframwaith o wasanaethau cynghori cyffredinol ac arbenigol ar gael ledled Cymru. Mae'r Fframwaith Ansawdd Cyngor i Gymru yn golygu y gall pobl fod yn hyderus eu bod yn defnyddio gwasanaeth gyda sicrwydd ansawdd; ac mae ein cefnogaeth i Rwydweithiau Cynghori Rhanbarthol yn dod â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd i lunio blaenoriaethau rhanbarthol a sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n effeithiol. |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin | 8,144 | 8,005 | Arwain cyfeiriad strategol a gweithredu'r Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, sy'n cynnwys amcan i 'gynyddu'r ffocws ar ddal y rheini sy'n cyflawni |

[2] Gweler troednodyn 2.

| MEG[1] | SPA | BEL | Dyraniad £000s 23-24 | Dyraniad Dangosol 24-25 | Gweithgareddau yn ymwneud â chyfiawnder a ariennir gan BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Domestig a Cham-drin Rhywiol | | | camdriniaeth i gyfrif a chefnogi'r rheini a allai ymddwyn yn dreisgar neu'n ymosodol i newid eu hymddygiad ac osgoi troseddu.<br><br>Mae'r Strategaeth bellach yn cael ei chyflawni drwy'r Glasbrint VAWDASV, sy'n cynnwys ffrydiau gwaith ar fynd i'r afael â thramgwyddo; aflonyddu ar sail rhywedd ym mhob man cyhoeddus; aflonyddu yn y gweithle; anghenion pobl hŷn; anghenion plant a phobl ifanc; a dull system gyfan cynaliadwy. |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Glasbrintiau Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid | Glasbrintiau Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid | 1,092 | 1,072 | Cyfraniadau Llywodraeth Cymru at y Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer rheoli rhaglenni Glasbrintiau, a chyllid ar gyfer cynlluniau fel Dull System Gyfan y Rhaglen Fraenaru i Fenywod ac Ymweld â Mam sy'n cefnogi pobl yn uniongyrchol yn y system gyfiawnder.<br><br>Bydd £20k yn cael ei drosglwyddo o'r gyllideb Cymorth Cymunedol a Diogelwch yn ystod cam y Gyllideb Derfynol, a fydd yn cyd-ariannu swyddi sy'n gysylltiedig â Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru a Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru. |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | Cefnogaeth a Diogelwch Cymunedol | Cefnogaeth a Diogelwch Cymunedol | 22,981 | 15,508 | Cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. |

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| MEG[1] | SPA | BEL | Dyraniad £000s 23-24 | Dyraniad Dangosol 24-25 | Gweithgareddau yn ymwneud â chyfiawnder a ariennir gan BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Bydd £20k yn cael ei drosglwyddo i'r gyllideb Glasbrintiau Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid yn ystod cam y Gyllideb Derfynol, a fydd yn cyd-ariannu swyddi sy'n gysylltiedig â Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru a Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru. |
| Yr Economi | Busnes Cymru | Busnes Cymru | 27,264 | 20,926 | Cymorth busnes pwrpasol i'r sector cyfreithiol yng Nghymru drwy wasanaeth Busnes Cymru gydag ymyriadau sy'n canolbwyntio ar eu heriau o ran recriwtio, cadw a gwytnwch.[3] |
| Yr Economi | Cyflogadwyedd gan gynnwys Gwarant i Bobl Ifanc | Cyflogadwyedd Yn cynnwys Gwarant i Bobl Ifanc | 100,206 | 97,351 | Cyflawni argymhellion adolygiad David Hanson o ddysgu troseddwyr.<br><br>Cymunedau am Waith – Gwasanaethau ataliol a allai ein helpu gyda chyfiawnder ieuenctid. Darparu hyfforddiant a mentora cyflogaeth dwys i'r rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur.[4] |
| Yr Economi | Sectorau a Busnes | Tasglu'r Cymoedd | 100 | 100 | Gwasanaethau ataliol a allai ein helpu gyda chyfiawnder ieuenctid, gan gynnwys datblygu economaidd, gwella sgiliau a datblygu'r amgylchedd naturiol.[5] |

3 Gweler troednodyn 2.
[4] Gweler troednodyn 2.
[5] Gweler troednodyn 2.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| MEG[1] | SPA | BEL | Dyraniad £000s 23-24 | Dyraniad Dangosol 24-25 | Gweithgareddau yn ymwneud â chyfiawnder a ariennir gan BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr Economi | Prentisiaethau | Prentisiaethau | 135,792 | 138648 | Cyllid i gyflawni darpariaeth prentisiaethau drwy rwydwaith o ddeg prif ddeiliad contract a gomisiynir. Mae'r gyllideb hefyd yn ariannu gweithgarwch cefnogi sy'n sail i sicrhau ansawdd a chynhwysiant – fel Cymhellion i Gyflogwyr ar gyfer prentisiaid Anabl. |
| Addysg a'r Gymraeg | Y Gymraeg | Y Gymraeg | 24149 | 22404 | Mae dyraniad y gyllideb yn ariannu amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys darparu llwybrau addysg a gwaith technoleg iaith, e.e. gan gynnwys cyllido Canolfan Bedwyr ym Mhrifysgol Bangor.[6] |
| Addysg a'r Gymraeg | Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid | Dysgu Troseddwyr | 7,328[7] | 7,328 | Cyllid ar gyfer cyflwyno dysgu a sgiliau mewn carchardai, a ddarperir drwy Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS) drwy gontractau wedi'u caffael a darpariaeth uniongyrchol. Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ei le gyda HMPPS. O'r cyllid hwn, dyrennir £3.328m i dalu am gostau darparu dysgu a sgiliau yng ngharchardai'r sector cyhoeddus yn Ne Cymru (CEF Brynbuga/Prescoed, Caerdydd ac Abertawe). Dyrennir £4m arall i dalu am gostau darpariaeth dysgu a sgiliau yng Ngharchar EF Berwyn yng Ngogledd Cymru. |

[6] Gweler troednodyn 2.

[7] Disgwylir y bydd £3.7m yn cael ei drosglwyddo yn 2023-24 o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi'r gwaith o ddarparu addysg a sgiliau yng Ngharchar EF a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc a fydd yn cael ei ffurfioli yn Ail Gyllideb Atodol 2023-24.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| MEG[1] | SPA | BEL | Dyraniad £000s 23-24 | Dyraniad Dangosol 24-25 | Gweithgareddau yn ymwneud â chyfiawnder a ariennir gan BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg a’r Gymraeg | Llesiant | Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant | 5,200 | 1,850[8] | Mae’r dull ysgol gyfan yn ymwneud â chefnogi iechyd emosiynol a meddyliol a llesiant dysgwyr a staff mewn ysgolion yn ogystal ag oedolion y gellir ymddiried ynddynt fel rhan o gymuned yr ysgol. Mae’r fframwaith dull ysgol gyfan yn rhoi pwyslais ar adnabod ac atal yn gynnar. Gellir defnyddio cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol fel rhan o’r dull hwn i ddarparu cymorth wedi’i dargedu i ganfod yn gynnar y bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddieithrio oddi wrth addysg, sy’n fwy agored i ganfod eu hunain yn y system cyfiawnder troseddol.<br><br>Mae nifer o brosiectau parhaus sy’n rhan o’r maes polisi sy’n cael ei ariannu o’r MEG a’r BEL hwn.[9] |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyllidebau Iechyd Canolog | Iechyd Meddwl | 88,601 | 78,062 | Mae’r dyraniad cyllidebol hwn yn darparu adnoddau i fyrddau iechyd, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac eraill i gefnogi iechyd meddwl a llesiant. Mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau uniongyrchol ar gyfer iechyd meddwl a dementia, ymyrryd mewn argyfwng, ymyrraeth gynnar a’r dull ysgol gyfan[10]. |

[8] Roedd Cyllideb Ddrafft 2024-25 yn cynnwys trosglwyddo cyllid awdurdodau lleol o £4.75m i Grant Addysg Awdurdod Lleol unedig. Bydd y cyllid hwn yn dal i gefnogi’r dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl mewn awdurdodau lleol.

[9] Gweler troednodyn 2.

[10] Gweler troednodyn 2.

| MEG[1] | SPA | BEL | Dyraniad £000s 23-24 | Dyraniad Dangosol 24-25 | Gweithgareddau yn ymwneud â chyfiawnder a ariennir gan BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyllidebau Iechyd Canolog | Camddefnyddio Sylweddau | 50,485 | 49,985 | Mae dyraniad y gyllideb yn cefnogi ein 7 Bwrdd Cynllunio Ardal a gweithgareddau eraill i leihau'r niwed sy'n deillio o gamddefnyddio sylweddau. Yn 24-25 bydd hyn yn cynnwys:<br>• £3m y flwyddyn i gefnogi Therapi Disodli Opioidau amgen parhaus (Buvidal) ar gyfer cyn-ddefnyddwyr heroin sydd mewn perygl.<br>• £2m y flwyddyn wedi'i neilltuo i gefnogi lleoliadau adsefydlu preswyl.<br>• £4.5m i gefnogi gwasanaethau i bobl ag anghenion tai a chymhleth.<br>• £6.25m o ddyraniad wedi'i neilltuo ar gyfer plant a phobl ifanc. [11]<br>Yn flaenorol, roedd y Gyllideb hon yn cynnwys cyllid ar gyfer Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru, sydd bellach wedi cael ei dynnu'n ôl. |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cefnogi Plant | Grant Plant a Chymunedau – ("CCG") | 172,269 | 174,583 | Mae gweithredu'r Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) yn cael ei gefnogi gan ffrwd gyllido o hyd at £797,423 ar gyfer y grant Cymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys, a weinyddir drwy'r CCG. |

[11] Gweler troednodyn 2.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| MEG[1] | SPA | BEL | Dyraniad £000s 23-24 | Dyraniad Dangosol 24-25 | Gweithgareddau yn ymwneud â chyfiawnder a ariennir gan BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cyflawni'r GIG | Dyraniadau Craidd y GIG | 8,253,211 | 8,611,185 | Cytundeb partneriaeth ar gyfer Iechyd Carchardai yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ffrydiau gwaith dan arweiniad Llywodraeth Cymru ar iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a rheoli meddyginiaethau.<br><br>Mae ffrwd waith hefyd ar amgylchedd y carchar sy'n cael ei harwain gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf (HMPPS). Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid cylchol ychwanegol o 2019/20 (£1.2 miliwn) i gefnogi byrddau iechyd lleol i wella mynediad at wasanaethau iechyd yn yr ystâd carchardai cyhoeddus. Nod y cyllid yw cefnogi gwelliannau i iechyd, iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd ar gyfer pobl mewn carchardai, ac mae wedi cael ei ddyrannu i'r Byrddau Iechyd hynny sydd â charchardai yn y sector cyhoeddus (Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro). Mae trefniadau cyllido ar wahân ar waith ar gyfer CEF Berwyn, a CEF Parc hefyd.[12] |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cefnogi Plant | Cefnogi Plant | 3,865 | 3,865 | Cyllid ar gyfer polisi a gweithgarwch cyfiawnder teuluol sy'n galluogi gostyngiadau yn nifer y plant sy'n dod i ofal, gwell canlyniadau a phrofiadau plant.[13] Darperir cyllid cylchol o £850K i awdurdodau lleol i |

[12] Gweler troednodyn 2.
13 Gweler troednodyn 2.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| MEG[1] | SPA | BEL | Dyraniad £000s 23-24 | Dyraniad Dangosol 24-25 | Gweithgareddau yn ymwneud â chyfiawnder a ariennir gan BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gefnogi Gwasanaethau Myfyrio drwy'r Grant Cynnal Refeniw.<br><br>Dyfarnwyd grant yn 2020-21 (i Fwrdd Cyfiawnder Teulu Lleol De-ddwyrain Cymru – cynllun peilot o fodel Llys Cyffuriau ac Alcohol Teulu, cyf 20-21/073) a dalwyd ymlaen llaw yn 20-21 a oedd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Chwefror 2021 a 31 Awst 2023. |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy | 107,128 | 98,907 | Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.[14] Mae'r Ddeddf yn nodi gofynion i sicrhau bod gwasanaethau lleol yn cael eu darparu i atal plant rhag troseddu ac i hyrwyddo eu lles yn y dyfodol. |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cefnogi Plant | Cefnogaeth i Deuluoedd a Phlant | 11,710 | 5,960 | Mae cyfran o ddyraniad y gyllideb yn ariannu gweithgarwch codi ymwybyddiaeth a monitro mewn perthynas â gweithredu Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020. |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | Cafcass Cymru | Cafcass Cymru | 15,195 | 15,873 | Cyllid ar gyfer Cafcass Cymru a darparu gwasanaeth statudol i'r Llys Teulu yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru, gan weithio gyda dros 11,500 o blant agored i niwed bob blwyddyn. |
| Newid Hinsawdd | Polisi Tai | Digartrefedd | 46,147 | 214,910 | Gan ddarparu llety i droseddwyr yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru wedi ymrwymo i fabwysiadu |

[14] Gweler troednodyn 2.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales
Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| MEG[1] | SPA | BEL | Dyraniad £000s 23-24 | Dyraniad Dangosol 24-25 | Gweithgareddau yn ymwneud â chyfiawnder a ariennir gan BEL |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | (DS: mae'r gyllideb hon wedi cael ei chyfuno â'r BEL Cymorth Tai blaenorol ar gyfer 2024/25. Pe bai'r ddwy BEL wedi cael eu cyfuno yn 2023/24, byddai'r gwerth ar gyfer 23/24 wedi bod yn £212,910) | dull strategol ar y cyd i atal a mynd i'r afael â digartrefedd ar gyfer holl droseddwyr Cymru. Nod y gwaith hwn yw sicrhau nad yw gwahaniaethau polisi yn effeithio ar ganlyniadau tai carcharorion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.<br><br>Gwella gweithrediad y Llwybr Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn sefydliadau diogel.<br><br>Mae atebion tai ar gyfer troseddwyr yn system cyfiawnder troseddol Cymru yn cael eu profi a'u gwerthuso drwy nifer o brosiectau gan gynnwys prosiect Tai yn Gyntaf penodol yng Nghaerdydd.[15] |

[15] Gweler troednodyn 2.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.